


Bedd Morris

Teithiau Byr



Bedd Morris

Teithiau Byr

Cludiant cyhoeddus: Dim

Bedd Morris

Pellter: 1.9 milltir (3.1 km),

Cyfeirnod map: SN034373

Cymeriad: Llwybrau gweunydd, llwybrau fferm, peth cerdded ar heolbach bach.

1 sticil.

Trowch i'r dde arno i'r heol, anwybyddwch y mynegbost cyntaf ar y chwith a throwch i'r chwith wrth y mynegbost nesaf gan ddilyn llwybr amlwg am i lawr. Peidiwch â dilyn wal y cae cyfagos ar y dde, ond cymerwch y llwybr glaswelltog amlwg rhwng y creigiau grug ac eithin, gan fynd tua chyfeiriad Ynys Dinas yn y pellter bob tro. Mae yna ddwy ffordd amlwg yn y llwybr - yn y ddau achos, cymerwch y llwybr ar yr ochr chwith. Trowch i'r chwith arno i drac arwynebol a'i ddilyn heibio i adeiladau, yna pasiwch rid gwartheg, gan ddefnyddio'r bont slab a'r sticil haearn i'r chwith, a dilynwch y trac i fyny'r tyle. Pasiwch y grid gwartheg, gan ddefnyddio'r giât cae i'r dde, a chyn y trydydd grid gwartheg, throwch i'r chwith i fyny'r llwybr, trwy'r giât ac yn syth ymlaen ar hyd llwybr caregog, sy'n troi yn laswelltog cyn hir. Cadwch yn syth ymlaen fwy neu lai (peidiwch â throï tua'r wal garreg ar y dde) a dilynwch y llwybr glaswelltog llydan, heibio i frigiadau creigiog, yn ôl at yr heol. Gan mai tir mynediad yw hwn, mae croeso i chi archwilio'r brigiadau creigiog. Ar yr heol, throwch i'r dde yn ôl i'r maes parcio.

Bedd Morris/Parcmawr

Pellter: 1.8 milltir (2.9 km)

Cyfeirnod map: SN031369

Cymeriad: Llwybrau ar weundir agored.

1 sticil.

Trowch i'r dde arno i'r heol a throwch i'r chwith arno i lwybr ceffylau wrth y mynegbost. Dilynwch y llwybr llydan ac yn y ffordd cadwch i'r dde (saeth las ar garreg), gan anwybyddu'r llwybrau mwy cul at frigiadau caregog (er, gan mai tir mynediad yw hwn, mae croeso i chi archwilio'r brigiadau caregog). Pan fydd y wal garreg yn dechrau ar y chwith yn y pellter, chiliwch am garreg ar y chwith gyda saeth felen. Trowch i'r chwith yma tuag at wal sydd wedi dymchwel, gan ddilyn y marciwr llwybr ar y garreg o'ch blaen, ac wedi cyrraedd y wal throwch i'r chwith. Dilynwch y wal nes cyrraedd giât ar y dde, ewch drwy'r giât a chroeswch y cae at y giât gyferbyn. Ewch trwy'r giât a dilynwch y llwybr glaswelltog yn syth ymlaen, gan gadw'r wal ar y chwith. Dilynwch y trac glaswelltog llydan trwy weundir, gan anwybyddu traciau defaid mwy cul. Pan fydd y llwybr yn llai amlwg, anelwch am y sticil o'ch blaen. Croeswch y sticil ac ewch yn syth ymlaen - mae'r llwybr yn mynd ychydig i'r chwith, gan gyrraedd wal yn y pendraw ar y chwith ar gornel y cae cyfagos. Trowch i'r chwith wrth y mynegbost a dilynwch y llwybr trwy'r gatiau, yna ar hyd ymyl y cae, gan gadw'r wal ar y chwith, yn ôl i'r maes parcio.